



Ein cyf/Our ref: MA/LG/2595/22

Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[paul.davies@senedd.wales](mailto:paul.davies@senedd.wales)

18 October 2022

Annwyl Paul,

**PARTHED: Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd,  
Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022**

Ysgrifennaf at y Pwyllgor i roi gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifenydd Gwladol arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Gofynnodd y cyn-Weinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, Victoria Prentis AS am gydsyniad i wneud Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022. Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban, ac eithrio rheoliadau 24 a 25, sy'n gymwys yn Lloegr yn unig. Bydd yr offeryn statudol yn cael ei wneud o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Mae'r Rheoliadau yn cynnig diwygio cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir mewn perthynas â rheolaethau swyddogol ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n effeithiol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae manylion y diwygiadau i'w gweld yn Atodiad A.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu i Gymru mewn materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Er hynny, mewn amgylchiadau penodol, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill pan mai hynny yw'r peth rhesymol i'w wneud.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y tro hwn, rwy'n credu ei bod yn briodol rhoi cydsyniad i'r Rheoliadau, sy'n gwneud cywiriadau ac yn ymdrin â materion gweithredol o ran Cymru, ac ar ei rhan, er mwyn effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder o ran y llyfr statud. Rwy'n gwneud hynny gan gadw'r gallu i ddargyfeirio yn y dyfodol, yn unol a'n cymhwysedd deddfwriaethol.

Mae'r offeryn hwn yn ymdrin â mân ddiffygion sy'n codi oherwydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a diffygion eraill nas rhagwelwyd ar adeg ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n sicrhau gweithrediad trefn fewnforio ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Felly, ymddengys yn briodol i arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd gan gofio bod angen i hyn weithio i'r Deyrnas Unedig gyfan, neu i Brydain Fawr (lle mae rhyddid i symud), er mwyn sicrhau bod safonau cyffredinol ac i leihau achosion o amharu ar fasnachwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau arolygu fel ei gilydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

## Atodiad A

### Rhan 2 o'r offeryn statudol:

- **Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 2016/2031 - Cosbau.** Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chreu troseddau ac maent yn nodi rheolau ar gosbau priodol mewn perthynas â phlâu a chlefydau planhigion ac yn adfer Erthygl 108 o'r Rheoliadau Iechyd Planhigion.

### Rhan 3:

- **Diwygio Erthygl 3 ac Erthygl 4 o Reoliad Rheolaethau Swyddogol (OCR)/ Rheoliad (EU) Rhif 2017/625** er mwyn dynodi'r 'Appropriate Authority' (Awdurdod Priodol) fel darpar 'Competent Authority' (Awdurdod Cymwys) yn gliriach.
- **Diwygio Erthygl 48 o'r OCR** er mwyn galluogi'r awdurdod priodol i fabwysiadu gweithredoedd dirprwyedig er mwyn sefydlu niferoedd o dan Erthygl 48(g).
- **Diwygio Erthygl 115 o'r OCR** mewn perthynas â chynlluniau wrth gefn ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid gan y 'Competent Authorities' (Awdurdodau Cymwys) neu 'Appropriate Authority' (Awdurdod Priodol). Mae'r diwygiad hefyd yn anelu at ddileu'r cyfeiriad at Erthygl 55(1) o'r Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol 178/2002 oedd wedi eu dirymu cyn hyn.
- **Diwygio Erthygl 128 o'r OCR** sy'n ymwneud â phwerau'r 'Appropriate Authority' (Awdurdod Priodol) i wneud rheoliadau i ddiogelu bioddiogelwch Prydain Fawr os oes brigiad o achosion o glefyd mewn trydedd gwlad.
- **Diwygio Erthygl 139 o'r OCR** er mwyn ceisio ymdrin â diffyg yn y ddeddfwriaeth OCR bresennol drwy ddarparu pŵer i'r 'Appropriate Authority' (Awdurdod Priodol) greu cosbau am beidio â cydymffurfio â'r OCR a deddfwriaeth ategol berthnasol.
- **Diwygio Erthygl 150 o'r OCR** er mwyn estyn y cyfnodau trosiannol y darperir ar eu cyfer yn yr Erthygl honno, pan fo Cyfarwyddeb 96/23/EC, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gyfoes ynghylch rhaglenni monitro gwaddol cenedlaethol gan bartneriaid masnachu a gymeradwywyd i fewnforio cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid i Brydain Fawr, yn parhau i fod yn gymwys.
- **Diwygio Atodiad 6 o'r OCR** i gywiro camgymeriad a dod â bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel (HRFNAO) o fewn cwmplas y Cyfnod Graddoli Trosiannol gan iddo gael ei hepgor yn wreiddiol mewn camgymeriad.
- **Diwygio Atodiad 6 o'r OCR** hefyd er mwyn caniatáu diwygio'r Cyfnod Graddoli Trosiannol yn annibynnol ar newid y dyddiad gorffen.

### Rhan 4:

- **Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 - Atal, rheoli a dileu Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy.** Mae Rheoliad 16 o'r Rheoliadau 2002 arfaethedig yn diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud ag atal, rheoli, a dileu rhai Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol ym Mhrydain Fawr.
- **Diwygio Atodiad 2 i Benderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC a diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 119/2009,** sy'n ddiwygiadau canlyniadol sydd wedi eu methu ac sy'n ofynnol bellach gan fod Rheoliadau Mewnforio Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid a Gwledydd Cymeradwy (Diwygio) 2002 wedi dileu gwybodaeth mewn rhestrau trydydd gwledydd o ddeddfwriaeth..
- **Diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 798/2008** i dynnu Belarws o'r rhestr o bartneriaid masnachu cymeradwy ar gyfer cig dofednod.
- **Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1/2005 a ddargedwir ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig.** Mae Rheoliad 17 yn gwneud cywiriadau i

Reoliad 1/2005 er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau Atodiad II yn gymwys. Mae Atodiad II i Reoliad 1/2005 yn nodi rhwymedigaethau cludwyr, trefnwyr, a cheidwaid mewn perthynas â log teithiau allforio, teithiau mewnfario a theithiau cludo da byw a cheffylau anghofrestredig o neu drwy Brydain Fawr, waeth beth yw pwrpas y daith, pan fo'r daith dros 8 awr.

- **Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/625.** Diben y diwygiad yw sicrhau bod y ddarpariaeth drosiannol yn Erthygl 3 o Reoliad 2020/625 (mewn perthynas â mewnfario hadau sesamum) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fewnfario a gaiff ddod i mewn i Brydain Fawr sy'n dod o fewn cwrpas y ddarpariaeth honno.

#### Rhan 5:

- **Diwygio Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964: Cymru a Lloegr** i ymdrin â bwllch polisi sydd wedi dod i'r amlwg o fewn Deddf 1964 mewn perthynas â diffyg pwerau i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â ffrwythau, llysiau a deunyddiau plannu addurniadol.

#### Rhan 6:

- **Diwygio Rheoliad 38 o Reoliadau Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (TARP) Lloegr.** Mae'r diwygiad i TARP yn delio â'r gallu i godi ffioedd ar gyfer archwiliadau ar y ffin mewn perthynas â nwyddau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, a bydd yn ofynnol diwygio TARP Cymru hefyd – bydd y diffyg hwn yn cael ei gywiro mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- **Diwygio rheoliad 2 o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Lloegr) 2018.** Gwneir diwygiad i ddiweddarau'r diffiniad o drydedd gwlad.